OWEN, JOHN (1864 - 1953), gweinidog (MC) ac awdur

Enw: John Owen
Dyddiad geni: 1864
Dyddiad marw: 1953
Priod: Hannah Owen (née Evans)
Rhiant: Margaret Owen
Rhiant: James Owen
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog (MC) ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 17 Ebrill 1864 ym Mhen-y-maes, Morfa Nefyn, Caernarfon, mab James a Margaret Owen. Bu mewn swyddfa yn Lerpwl am chwe blynedd ac yno, yn 1884, y dechreuodd bregethu. Addysgwyd ef yn ysgol Clynnog, Coleg y Bala, ac yn Rhydychen (lle graddiodd yn 1892, M.A. yn 1903). Bu'n diwtor am flwyddyn yng Ngholeg y Bala. Ordeiniwyd ef yn 1892, a bu'n gweinidogaethu yn y Gerlan, Bethesda (1892-1902), Y Bowydd a'r eglwys Saesneg, Blaenau Ffestiniog (1902-09), ac Engedi, Caernarfon (1909-26). Priodod Hannah Evans, Dyffryn Nantlle; ni bu iddynt deulu. Dychwelodd i Forfa Nefyn ar ôl ymddeol; bu farw 1 Mawrth 1953 yn y Royal Infirmary, Lerpwl, a chladdwyd ef ym mynwent Nefyn.

Yr oedd yn arweinydd amlwg o'r Cyfundeb y perthynai iddo. Bu'n llywydd Sasiwn y Gogledd (1920 ac 1949), ac yn llywydd y Gymanfa Gyffredinol (1926). Traddododd y Ddarlith Davies yn 1923, ac fe'i cyhoeddwyd dan y teitl *Gwybodaeth y Sanctaidd* (1923). Ysgrifennodd lawer i gylchgronau'i enwad, a bu'n golofnydd wythnosol yn *Y Goleuad* o 1930 ymlaen dan yr enw ' Sylwedydd ', - cyhoeddwyd detholiad o ysgrifau'r golofn hon, *Sylwadau sylwedydd*, 1949. Cyhoeddodd hefyd y llyfrau a ganlyn: *Cofiant a gweithiau David Roberts y Rhiw* (1908); *Rolant y teiliwr ac ysgrifau eraill* (1920); *Y Cyfundeb a'i neges* (1935), yn Gymraeg ac yn Saesneg. Golygodd gyfrolau o bregethau John Williams, Brynsiencyn (1922 ac 1923), a Thomas Charles Williams (1928 ac 1929). Cyhoeddodd hefyd werslyfr ar *deithiau'r Apostol Paul* (1902), ac *esboniad ar Efengyl Luc* (1927 ac 1928). Yn rhinwedd ei swydd fel golygydd cyffredinol y Llyfrfa, Caernarfon, am flynyddoedd hwylusodd lawer o gyfrolau o waith awduron eraill drwy'r wasg. Yn 1950 cafodd radd D.D. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru. Yn 1957, ar ôl ei farwolaeth, cyhoeddwyd detholiad o'i bregethau (golygwyd gan William Morris).

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Who's who in Wales (1921), 350

Who's who in the Free Churches? (1951), 350

Y Drysorfa, 1920, 121-3; 1926, 1-3; 1949, 59-63

Y Goleuad, 11 Mawrth 1953

Blwyddlyfr y Methodistiaid Calfinaidd, 1954, 228-9

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 103556894

Wikidata: Q20751813

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.